

PROTOCOL ARFER GORAU TPC 2C

ABSENOLDEB YR APELYDD

Cyflwyniad

1. Mae'r rheoliadau yn caniatáu i unrhyw barti ymddangos yn bersonol neu gael ei gynrychioli gan bwy bynnag y maent yn dymuno.

Deddfwriaeth

- Rheol 29 o Reoliadau Ardrethiant Annomestig (Newid i Restrau ac Apelau) (Cymru) 2005 (OS 2005/758)
- Rheol 25 o Reoliadau Dreth Gyngor (Newid i Restrau ac Apelau) 1993 (OS 1993/290)
- Rheol 36 o Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 (OS 2010/713)

Gweithdrefn

2. Gall barti sy'n dymuno i'r apêl fynd yn ei blaen yn ei absenoldeb:
 - benodi cynrychiolydd i ymddangos ar ei ran, neu
 - ddarparu cyflwyniad ysgrifenedig i gael ei ystyried yn ei absenoldeb.

Cynrychiolydd

3. Lle mae parti wedi penodi cynrychiolydd i ymddangos ar ei ran, mae angen i'r parti hynny roi gwybod i'r Tribiwnlys/Panel Apêl cyn cychwyn y gwrandawriad apêl, ac i roi enw'r cynrychiolydd.
4. Bydd yr Agenda yn cael ei nodi yn unol â hynny.

Cyflwyniadau Ysgrifenedig

5. Lle mae'r parti wedi dewis peidio ymddangos neu i gael eu cynrychioli, gall y parti gyflwyno ei ddadl drwy gyflwyniad ysgrifenedig.
6. Ar gyfer i'r apêl symud ymlaen trwy gyflwyniadau ysgrifenedig, mae'n angenrheidiol i'r parti gynnig **copi o'i dystiolaeth/dadleuon** i'r Clerc Rhanbarthol **o leiaf 2 ddiwrnod gwaith cyn y gwrandawriad Tribiwnlys**.

7. Gall cyflwyniad ysgrifenedig gynnwys:
 - ddatganiad o'r mater(ion) sy'n destun anghydfod
 - esboniad o'r penderfyniad ceisir gan y Tribiwnlys/Panel Apêl
 - manylion y dadleuon a'r dystiolaeth y dibynnir arno
 - gall dadleuon gynnwys dadleuon cyfreithiol/deddfwriaeth/cyfraith achos
 - copïau o unrhyw ddogfennau perthnasol
8. Bydd y Tribiwnlys, ar ôl derbyn y cyflwyniad ysgrifenedig, yn anfon copi at y parti(on) eraill er gwybodaeth.
9. Bydd copïau o'r cyflwyniad ysgrifenedig yn cael ei gyflwyno i'r Tribiwnlys/Panel Apêl i'w ystyried ar ddiwrnod y gwrandawriad.
10. Os nad yw'r apelydd yn mynychu/ddim yn cael ei gynrychioli/a heb roi cyflwyniad ysgrifenedig, gall y Tribiwnlys/Panel Apêl:
 - Gwrthod yr apêl.
 - Glywed yr apêl yn absenoldeb yr apelydd.
 - Gohirio'r gwrandawriad.
11. Cyn gwneud ei benderfyniad, bydd y Tribiwnlys/Panel Apêl yn bodloni ei hun
 - pryd anfonwyd yr hysbysiad o wrandawriad,
 - pa gysylltiad fu rhwng y partiön,
 - pa gyswllt wnaed gyda swyddfa'r Tribiwnlys,
 - oes cais wedi'i wneud am ohiriad/gwrandawriad mewn absenoldeb.

Gwrthod yr Apêl mewn Absenoldeb

12. Os bydd pob parti arall i apêl yn methu ag ymddangos ac eithrio'r Swyddog Prisio/Swyddog Rhestru, mae gan y Tribiwnlys yr awdurdod i wrthod yr apêl – gwrthod statudol.
13. Pan fo Tribiwnlys yn gwrthod apêl, gall yr apelydd ofyn i'r penderfyniad hwnnw gael i'w neilltuo os ydyw wedyn yn gwrthwynebu ac yn gallu dangos rheswm da pam ei fod yn absennol.